


Teithiau Hanner Dydd a Mwy



Sychpant/Caregog

Teithiau Hanner Dydd a Mwy

Hyd: 3 awr

Pellter: 5.8 milltir (9.3 km)

Cludiant cyhoeddus: Dim.

Cyfeirnod map: SN046355

Mae llawer o ucheldir y Preseli yn gorsiog ac mae'r priddoedd yn asidig. Mae'n gynefin ble mae planhigion fel grug, llus a rhedyn yn ffynnu. Dyma dirwedd arbennig o hardd yn hwyr yn yr haf pan fydd pinc cynnes y grug yn ychwanegu gwawr o liw at y golygfeydd godidog.

Y bryniau uchelaf yn Sir Benfro yw'r Preselau ac maen nhw'n grib o siâl a charreg laid Ordoficaidd a gywasgwyd i ffurfio llechi sy'n gallu gwrthsefyll y tywydd. Mewn mannau mae yna ddolerit igneaidd hefyd, sef y 'garreg las' enwog sy'n ffurfio cylch mewnol Côr y Cewri (Stonehenge).

O begwn llydan Mynydd Caregog mae yna olygfeydd gwych o Ynys Dinas a Bae Aberteifi. Ar ddiwrnod clir iawn mae'n bosib gweld Bryniau Wicklow yn lwerddon ar y gorwel gorllewinol pell.

Marciwr ar y daith hon yw'r garreg sefyll a elwir yn Bedd Morris, sy'n un o 70 carreg sefyll i'w gweld yn Sir Benfro.

Saif y garreg drawiadol tua dau fetr (chwe throedfedd) o uchder a chredir ei bod yn dyddio nôl i gymaint â 4,000 o flynyddoedd yn ôl. Nid ydym yn gwybod pam mae'r garreg yn sefyll ble mae hi, ond efallai ei bod yn dangos cyffordd hen lwybr hynafol.

Yn llawer mwy diweddar daeth y garreg i fod yn ffocws i lawer o straeon lleol. Yn ôl un stori o'r fath mae'r piler anferth o graig yn nodi bedd lleidr pen ffordd o'r enw Morris. Dywedir ei fod yn arfer ysglyfaethu ar deithwyr a groesai'r bryniau.

Mae safle picnic Sychpant yn eiddo i Awdurdod y Parc Cenedlaethol ac yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig – mae'n enwog am y pili pala brith brown, sy'n mwynhau'r brithwaith hwn o gynefinoedd a chennau. Gwelir brith y gors ymhellach i fyny'r safle.

Mae'r daith gylch hefyd yn coffleidio llethrau serth a choediog Cwm Gwaun ac yn ymylu ar blanhigfa fawr coedwig Penlan. Plannwyd y goedwig sbriws hon ar rostir yn y 1970au cynnar, ac mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol wedi ei phrynu ac yn y broses o'i throi yn ôl at fod yn rhos ac yn weundir trwy dorri'r conifferau. Mae grug, llus ac eithin yn dod yn ôl i fyw ar y dirwedd.

Gwlad y Chwedlau

Cliciwch ar yr eiconau isod am chwedl leol, neu ewch i www.arfordirpenfro.cymru/chwedlau

